YSGOL BRYNREFAIL

TÎM HOCI dan 15

Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Twrnamaint Hoci Arfon ar gaeau Ysgol Brynrefail. Arwahan i dîm Brynrefail yr oedd Ysgol Tryfan ac Ysgol Syr Huw Owen yn cystadlu.
Yn y gêm gyntaf bu tîm Brynrefail yn anffodus iawn o golli o 1-0 yn erbyn Ysgol Tryfan mewn ymryson brwdfrydig.
Ymlaen at yr ail gêm a chyfartal (0-0) oedd hi ar ddiwedd y gêm yn erbyn tîm hoci Syr Huw Owen, a chyfartal oedd hi hefyd ar ddiwedd amser ychwanegol. Felly aeth y gystadleuaeth ymlaen i gystadleuaeth strociau cosb (cyffelyb i giciau smotyn ym mheldroed) ond yn anffodus colli 1-0 fu'r hanes.

Genod Brynrefail – da 'de